

EVE – Hyrwyddo her wrth arfarnu

Cyflwyniad.

Dros y degawd diwethaf mae arfarnu yng Nghymru wedi cael llawer o newidiadau a gellid gweld bod AaGIC/HEIW, fel rhan o'i gynllun datblygu ei hun, wedi ceisio hyrwyddo rhagoriaeth yn ei dimau arfarnu. Enghraifft o hyn yw datblygiad yr adnodd Dull Asesu Trafodaeth Arfarnu (ADAM) (Rowlands a Rees, 2011), sy'n gweithredu fel ffordd o asesu a hunanasesu sgiliau arfarnu o fewn y drafodaeth arfarnu. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd ddefnyddiol i'r Cydlynwyr Arfarnu (ACs) allu annog sgiliau arfarnu generig da yn eu timau. Mae adnodd ADAM wedi profi i fod yn ddefnyddiol iawn ac, er enghraifft, mae adnodd ADAM 'wedi'i addasu' (MADAM) wedi cael ei ddatblygu i asesu ymgeiswyr sy'n gwneud cais i fod yn arfarnwyr newydd ac i ymgymryd ag asesiad chwarae rôl fel rhan o'r broses recriwtio.

Un o gonglfeini canfyddedig arfarniad effeithiol yw cynnwys cyflwyno 'her' i'r drafodaeth. Er bod gan y rhan fwyaf syniad o'r hyn a olygir gan *her* yn y cyd-destun hwn, nid yw pob arfarnwr wedi teimlo'n gwbl gyfforddus â'r cysyniad. Daeth yn amlwg yn ystod trafodaethau gydag arfarnwyr yn ystod cyfarfodydd rhanbarthol neu adolygiadau perfformiad blynyddol nad oedd pob un ohonynt yn deall ei hystyr yn glir. Mewn ymateb i hyn awgrymwyd y dylai'r agenda graidd ar gyfer cyfarfod rhanbarthol diweddar gynnwys arfarnwyr yn rhannu enghreifftiau o *her* o fewn arfarniadau diweddar er mwyn egluro'r pwynt. Yn saith cyfarfod rhanbarthol gwanwyn 2015 bu arfarnwyr Cymru yn trafod amrywiaeth o enghreifftiau a chawsant eu crynhoi yn y cofnodion a'u defnyddio fel ffynhonnell berthnasol ar gyfer prosiect posibl yn y dyfodol ar bwnc *her* yn y drafodaeth arfarnu.

Un thema gyffredin yn y trafodaethau oedd natur niwlog y term *her* ei hun ac roedd rhai yn poeni braidd am ddehongliad 'gwrthdrawiadol' y term (e.e. fel mewn gêm rygbi) a cheisiwyd eglurdeb ynghylch sut mae hyn, fel cysyniad, yn ymwneud â manteision addysgol arfarniad datblygiadol.

Canolbwyntiodd dadansoddiad o'r hyn yr ydym yn wir yn ceisio ei hyrwyddo yn y cysyniad hwn ar y 'gwerth ychwanegol' a anogwyd yn adran Sylwadau'r Arfarnwr o'r crynodeb arfarnu, fel y'i cynrychiolir ar hyn o bryd yn system arfarnu Cymru. Nodwyd bod gwaith paratoi da yn bwysig i drafodaeth arfarnu effeithiol ac yn wir mae hyn yn cael ei nodi'n glir yn yr adnodd ADAM. Roedd y broses hon yn cynnwys gwerthuso tystiolaeth y meddyg yn ofalus. Roedd hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo rhestr o gwestiynau priodol wedi'u cynllunio i annog y ddwy ochr i fyfyrion ymhellach yn ystod y cyfnod trafod ac arwain at ddatblygiad naturiol syniadau, neu 'werth ychwanegol' a geisir mor eiddgar. Felly, crisialodd y cysyniad hwn o amgylch yr arfer o 'Werthuso'r Dystiolaeth', cyn ac yn ystod y drafodaeth a chafodd y prosiect 'EVE' ei eni.

Yn anffodus, elfen oedd yn dal i fod ar goll o'r broses hon oedd ffordd o 'haenu' neu asesu lefel y dysgu a ddangoswyd gan dystiolaeth y meddyg wrth archwilio. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn nodi dull diriaethol o gynnydd neu ddatblygiad. Profodd chwilota drwy gysyniadau mewn damcaniaeth addysgol sefydledig yn diriogaeth ffrwythlon. I'r diben hwn nodwyd 'Taxonomy of Blooms' (Bloom et al, 1956) fel ffordd o egluro dealltwriaeth. Dangosir y dacsonomeg, neu'r hierarchaeth, isod, ond roedd ei chymhwyso yn gofyn am enghreifftiau o drafodaethau arfarnu go iawn lle gellid adnabod cyflawniadau yn nhystiolaeth y meddyg yn erbyn gwahanol haenau yn yr hierarchaeth. Gellid dangos bod gweithgareddau dysgu posibl yn y dyfodol wedi codi drwy'r strata os oeddent i fod yn wirioneddol ddatblygiadol neu i gael 'gwerth ychwanegol'.



Yng nghyd-destun trafodaeth arfarnu meddygol neu werthusiad o'r dystiolaeth gall cofnod, wrth gwrs, ddangos elfennau o gyrhaeddiad gwybyddol ar wahanol lefelau yn yr hierarchaeth ond i ddangos hyn yng nghyd-destun y tacsonomi rhoddir enghreifftiau syml o dystiolaeth ar bob lefel:

Cofio (Gwybodaeth). Mae meddyg wedi dod i wybod (e.e. drwy ddarllen) am gyffuriau newydd i drin rhai mathau o ganser, carcinoma arenol neu ganserau'r pancreas, dyweder). Mae'r ffaith eu bod yn bodoli, a'u bod yn cael eu rhagnodi i'w gleifion, yn cyfrif fel gwybodaeth newydd, ond efallai nad yw'r meddyg yn gwybod dim am sut maent yn gweithio nac am eu sgileffeithiau posibl.

Dealltwriaeth (Amgyffred). Mae meddyg wedi bod i ddarlith ar ddsbarth newydd o gyffuriau (e.e. cyffuriau gwrthgeulo newydd). Mae hi'n awr yn deall sut maent yn gweithio, y dangosyddion, y sgileffeithiau ac yn y blaen ac mae'n gweld y posibilrwydd o'u rhagnodi i'w chleifion. Nid oes ganddi brofiad o'u defnydd yn ymarferol ar yr adeg hon.

Cymhwyso. Mae meddyg yn eithaf cyfarwydd â rhagnodi grŵp o gyffuriau, Atalyddion Ace-inhibitors neu Beta Atalyddion ar gyfer pwysedd gwaed uchel, dyweder, ond yn dilyn cyfarfod meddygol defnyddiol ar reoli methiant y galon yn briodol mae hi'n fwy hyderus i'w defnyddio yn y cyd-destun hwn. Mae hi wedi manteisio ar y cyfle i adolygu ei holl gleifion sydd â'r cyflwr hwn ac wedi sicrhau bod eu triniaeth wedi'i hoptimeiddio pan yn bosibl.

Dadansoddi. Mae meddyg wedi cyfarwyddo'i hun â dadleuon diweddar o blaid ac yn erbyn profion gwaed PSA. Mae hi wedi newid ei barn ynglŷn â pha bryd i archebu'r prawf hwn gyda golwg ar ddysgu newydd ac mae hi'n awr wedi penderfynu cael cydsyniad mwy manwl yn seiliedig ar wybodaeth gan y claf cyn ei archebu. Mae hi'n awr yn fwy hyderus wrth drafod manteision ac anfanteision y cam hwn ac mae'n barod i drafod materion eraill mewn ffordd fwy gwybodus yn ystod yr ymgynghoriad.

Gwerthuso. Datgelodd digwyddiad arwyddocaol diweddar o fewn tîm meddygon teulu nad oedd pob partner yn rheoli cyflwr meddygol cyffredin yn yr un ffordd. Cafodd cyfarfod ei alw i drafod hyn a phenderfynwyd y byddai'r practis yn gyntaf yn cynnal archwiliad o'r holl gleifion a oedd wedi cael diagnosis o'r cyflwr yn y chwe mis diwethaf. Cafodd partner ei ddynodi i edrych ar y canllawiau cyfredol ac i wneud argymhellion i'r grŵp. Cafodd cyfarfod adolygu ei drefnu i astudio'r data archwilio a gasglwyd, i glywed argymhellion y partner a wnaeth yr ymchwilio ac i gael consensws ar reoli'r cyflwr yn y dyfodol.

Creu. Gwnaeth meddyg ddiagnosis o Arteritis Arleisiol ar sail glinigol yn achos un o'i chleifion. Roedd yn ymwybodol bod canllawiau clir yn ymwneud â threfnu biopsi rhydweli arleisiol ond roedd yn siomedig o ganfod ar ôl ffonio'r ysbyty lleol nad oedd llwybr eglur ynglŷn â sut y gellid trefnu hynny. Ar ôl ymgynghori â'r rhiwmatolegydd ymgynghorol lleol a'r adran llawfeddygaeth fasgwlaidd cysylltodd y meddyg i lunio canllawiau newydd sy'n addas ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a threfnu bod y rhain yn cael eu rhannu â phob practis yn ardal y bwrdd iechyd.

Byddai adborth gan arfarnwyr profiadol yn awgrymu y byddai'n naturiol iddynt i asesu eu meddygon yn ôl yr haeniadau hyn ond heb fod yn gyfarwydd â'r hierarchaeth ei hun.

Nod y prosiect, fodd bynnag, yw sefydlu a allai modiwl addysgu sy'n cynnwys y cysyniadau addysgol sy'n deillio o'r dacsonomeg annog arfarnwyr llai profiadol i gyflawni sgiliau eu cydweithwyr mwy profiadol yn gyflymach ac y gallai gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n rhoi sgiliau o'r fath iddynt wella priodoleddau'r rhai sydd eisoes â'r sgiliau hynny. Archwilir y dulliau a ddefnyddir yn ddiweddarach yn y drafodaeth hon ond cytunwyd y dylai ymgorffori'r cysyniadau ymarferol canlynol:

1. Dylai enghreifftiau geisio dangos dilyniant cam wrth gam drwy'r strata. Arfarnwr sy'n annog datblygiad mewn meddyg sy'n gweithio ar lefel is yn yr haenau ar hyn o bryd, er enghraifft, mae'n dangos gwybodaeth dda o'r posibilrwydd o gymhwyso dosbarth cyffuriau newydd (*Dealltwriaeth*) yn debygol o gael ei ddychryn gan yr awgrym y gallai archwilio rheolaeth bresennol ei gleifion (*Dadansoddi*) neu gynhyrchu dogfen gyfarwyddyd ar gyfer y practis (*Creu*) ond gallai adlewyrchu'n rhesymol yn ffolder arfarnu'r flwyddyn nesaf ar ei brofiad o ddefnyddio'r cyffur mewn cleifion dethol (*Cymhwyso*) yn y flwyddyn i ddod. (Mae'r arfarnwr 'gor-frwdfrydig' mor aneffeithiol efallai â'i chydweithiwr 'di-her' yn yr enghraifft hon).
2. Pan fydd arfarnwyr yn colli'r cyfle i annog meddygon i symud i'r lefel nesaf yna gall y nam gael ei ystyried yn un o 'gydgyllwynio' neu'n gyfle a gollwyd i ychwanegu gwerth. Er enghraifft, gall meddyg sy'n cydnabod diffyg yng ngofal cleifion oherwydd aneffeithlonrwydd a nodwyd yn y 'system' darparu gofal fod yn derbyn gwasanaeth gwael gan yr arfarnwr sy'n nodi 'bod gennym broblemau tebyg yn ein hardal ni, ond beth allwch chi ei wneud...?' – Dyma ddatganiad o'r status quo yn hytrach na her Socrataidd i'w gydweithiwr. Y cyfle a gollwyd yma yw annog y meddyg i ystyried atebion posibl i'r broblem mewn ffordd ystyrlon, gan annog y meddyg i ystyried datrysiadau (*Gwerthuso*) a datblygu syniadau newydd (*Creu*) o bosibl.
3. Wrth symud ymlaen o un thema i faes cysylltiedig, gellir cydnabod y gallai fod angen i ddatblygiad yn y maes newydd fod ar bwynt is ar yr hierarchaeth i ddechrau er mwyn parhau i fod yn gyraeddadwy o fewn cyfyngiadau amser y flwyddyn sydd i ddod. Fel achos o'r enghraifft uchod, gall y meddyg sydd â'r hyder i gynhyrchu canllawiau lleol ar gyfer rheoli cleifion sy'n dangos symptomau sy'n debygol o fod yn Arteritis Arleisiol adnabod gwendid, dyweder, o ran sgiliau diagnostig mewn Sglerosis Ymledol. Gall gweithgaredd dysgu realistig y flwyddyn nesaf fod wedi'i gyfyngu i *Gofio* a *Deall* strata'r hierarchaeth.

Cymhwyso

Mae tacsonomeg Bloom wedi'i phrofi dros amser a'i chymhwyso'n eang mewn amrywiol feysydd addysgol.

Gallai arfarnu hwyluso'r broses o symud drwy'r camau drwy werthuso'n briodol gyfnod y datblygiad a'r her i symud i lefelau uwch.

Gellid esbonio dadansoddiad o drafodaethau arfarnu camweithredol gan arfarnwyr yn symud yn rhy gyflym drwy'r camau neu drwy asesu'n anghywir ble mae lefel cyrhaeddiad presennol y meddyg.

Gan fanteisio ar brofiad o arfarnu yng Nghymru dros y 10+ mlynedd diwethaf, roedd cwestiynau penodol i gynorthwyo ymholiadau amrywiol wedi'u mapio i'r hierarchaeth. Nod y cwestiynau oedd helpu i sefydlu ble yn yr hierarchaeth y mae'r meddyg yn ei lefel bresennol o ddatblygiad a herio'r meddyg i symud drwy'r camau ar gyflymder priodol i gyflawni ei nodau datblygiadol.



Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio wrth baratoi/yn ystod y drafodaeth er mwyn ychwanegu gwerth.

Bydd y cwestiynau'n helpu'r arfarnwr i ganfod ym mhle yn yr hierarchaeth y mae'r meddyg o ran ei ddysgu, ond hefyd i annog symud i fyny'r hierarchaeth gan ychwanegu gwerth at y drafodaeth.

1. Cofio (gwybodaeth)

Dywedwch wrthyf...

Beth ydych chi'n ei gofio o'r cyfarfod/digwyddiad?

Dewiswch un peth o'r cyfarfod/digwyddiad a oedd yn newydd i chi.

A oedd unrhyw ddeunydd/gwybodaeth newydd yma?

A allwch chi gofio beth oedd yr wybodaeth newydd?

2. Dealltwriaeth (amgyffred)

A ydych chi'n fwy hyderus yn y maes hwn / wrth ddefnyddio'r cyffur / yn yr agwedd hon ar eich gwaith?

A ydych chi'n teimlo eich bod yn gyfoes yn achos y rôl hon?

A ydych chi'n dawel eich meddwl bod eich ymarfer yn gyfoes / cywir?

A allech chi'n awr addysgu hyn?

A allech chi ddangos hyn i rywun arall?

A allech chi grynhoi sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol?

Sut mae eich dealltwriaeth bresennol yn cymharu â'ch dealltwriaeth cyn y cwrs?

3. Cymhwys

A ydych chi wedi dechrau cymhwyso'r wybodaeth hon yn glinigol?

Faint o gleifion sydd wedi elwa ar hyn?

Sawl gwaith ydych chi wedi cyflawni'r driniaeth hon / wedi rhagnodi'r cyffur hwn / wedi defnyddio'r dechneg hon?

A yw hyn yn awr yn rhan o'ch ymarfer cyfredol?

Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon yn eich ymarfer?

A ydych chi wedi cyflawni'r driniaeth hon?

A ydych chi (neu sut ydych chi) wedi newid eich ymarfer o ganlyniad?

A yw hyn yn effeithio ar sut yr ydych yn hyfforddi pobl eraill?

A ydych chi'n rhagnodi / archwilio / ymchwilio mewn ffordd wahanol o ganlyniad i hyn?

A yw eich ffordd o gadw cofnodion yn wahanol o ganlyniad i hyn?

Sut ydych chi wedi addasu eich ymarfer o ganlyniad?

4. Dadansoddi

Yn eich barn chi, sut mae'r driniaeth newydd hon yn cymharu â'r hen un?

A ydych chi wedi dod ar draws unrhyw broblemau gyda'r newid hwn?

A ydych chi'n credu bod hyn yn well i'ch cleifion?

Ar ôl gwneud newidiadau, pa mor hyderus ydych chi fod pethau'n well i'r cleifion?

A ydych chi yn rhagweld unrhyw broblemau gyda'r newid hwn?

A allwch chi fod yn siŵr bod hyn yn welliant?

A allwch chi weld gwahaniaeth yn ymarferol?

A allwch chi ddisgrifio manteision ac anfanteision y gwasanaethau newydd?

A yw'r newid hwn yn agored i feirniadaeth mewn unrhyw ffordd?

Beth fyddai'r meddyg sinigaidd yn ei ddweud am hyn?

Beth yw'r beirniadaethau posibl o'r dull hwn?

Beth mae cleifion / gweithwyr iechyd proffesiynol / cydweithwyr / meddygon gofal eilaidd yn ei feddwl? Beth sydd gan holiaduron cleifion i'w ddweud? A ydych chi wedi gofyn i gleifion beth maent yn ei feddwl? A ydych chi wedi gofyn i'r grŵp cywir am eu barn?

5. Gwerthuso

A ydych chi'n gwneud yr hyn rydych yn ei ddweud eich bod am ei wneud a sut wyddoch chi / sut ydych chi'n dangos hyn?

A ydych chi'n dangos gwerth gwneud hyn i eraill?

A ydych chi wedi dangos eich bod yn perfformio yn y ffordd hon?

A ydych chi'n cydymffurfio â'r canllawiau? Sut ydych chi'n dangos eich bod yn cydymffurfio â hwy?

Sut allwch chi farnu bod y newid hwn yn llwyddiannus?

Sut ydych chi'n dangos eich bod yn dadansoddi mewn modd beirniadol yr hyn rydych yn ei wneud?

A ydych chi wedi'ch argyhoeddi bod hyn yn gwella gofal eich cleifion?

Sut ydych chi'n dangos gwerth yr ymyriad hwn?

A allwch chi ddangos i eraill eich bod yn gymwys yn y maes hwn?

Beth yw'r problemau â'r ymyriad yn yr ymarfer? Beth allech chi ei wneud ynglŷn â hyn?

Sut fydddech chi'n cyfiawnhau hyn i eraill?

A yw eich cleifion yn well eu byd o ganlyniad i hyn?

A ellid bod wedi cyflawni'r canlyniad mewn unrhyw ffordd arall?

A ydych chi'n hapus bod eich cylch gorchwyl yn ddilys – a ydych chi wedi pennu'r safonau cywir – a allwch eu cadarnhau?

Felly?

6. Creu

Sut fyddwch chi'n datblygu hyn yn ymarferol?

Sut allech chi fynd â hyn ymhellach?

Ym mha ffordd allech chi fwrw ymlaen â hyn?

A oes gennych ddiddordeb mewn gwella'r gwasanaeth hwn mewn unrhyw ffordd?

A yw'r darn gwaith hwn yn gyflawn – beth arall allech chi ei wneud gyda'r dysgu hwn?

A allech chi lunio protocol / dogfen ganllaw i'w defnyddio gan eraill?

A allai hyn ddatblygu y tu allan i'r practis / gwasanaeth / ysbyty?

A allwch chi rannu hyn â meddygon / practisau eraill?

A ellid cyffredinoli hyn i agweddau eraill ar eich gwaith – arddull dysgu / fformat dysgu / arddull addysgu / rhywbeth arall lle mae angen dull tebyg / gwasanaeth sydd angen sylw?

A oes angen i chi rannu hyn ag eraill yn y practis / adran / cymuned gofal iechyd ehangach?

Sut fyddwch chi'n integreiddio hyn yn eich darpariaeth bresennol?

Sut fyddwch chi'n darparu'r gwasanaeth hwn o fewn eich gwasanaeth iechyd – a oes angen hyfforddi eraill?

A oes unrhyw addasiadau i'ch ymarfer presennol y bydd angen eu gwneud i ymgorffori hyn?

A oes unrhyw broblemau posibl gyda chyflwyno hyn? A ydych chi wedi ystyried beth all fynd o'i le? A allwch chi ragweld unrhyw broblemau?

ADRAN FIDEO

Gellid troshaenu termau tacsonomi h.y. cofio eu creu dros y sgrin tra bod y fideo'n chwarae i bwysleisio'r ffordd mae'r arfarnwr yn arwain y drafodaeth
Gellid defnyddio lliwiau (megis goleuadau traffig) i nodi dilyniant swyddogaethol neu gamweithredol neu ddiffyg defnydd ohono.

Senario 1

Mae meddyg wedi mynychu cyfarfod ar NOAC, wedi myfyrio ar weithrediad y cyffuriau ond nid oes ganddo brofiad o'u rhagnodi yn y practis.

Tystiolaeth a gyflwynwyd:

Gweithgaredd – wedi mynychu cyfarfod ag ymgynghorwyr lleol, diweddariad diweddaraf ar gyffuriau newydd, dangosydd a phroblemau posibl gyda'r cyffuriau yn ymarferol.

Rheswm – dosbarth newydd o gyffuriau ar gael i'w cyflwyno mewn gofal sylfaenol.

Myfyrio – Yn ymwybodol eisoes o'r grŵp o gyffuriau ond gwybodaeth yn gyfyngedig gan nad oeddent ar gael i ofal sylfaenol ac felly heb deimlo'r angen i ddiweddarau gwybodaeth. Mae newid yn y canllaw i ganiatáu iddynt gael eu defnyddio mewn gofal sylfaenol wedi ennyn diddordeb. Ers y

cyfarfod daeth yn fwy ymwybodol o'r dangosyddion, y sgileffeithiau a'r problemau wrth ragnodi i gleifion â nam arenol.

Canlyniad

1. Mwy hyderus wrth roi'r cyffuriau
2. Parod i symud cleifion oddi ar warfarin i NOAC yn unol â'r canllaw
3. Ymwybodol o broblemau yn achos cleifion â nam arenol.

Dogfennaeth ategol – tystysgrif bresenoldeb a nodiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod

Fideos

1. Fideo - Trafodaeth aneffeithiol

Cydnabod dysgu newydd ond dim gwerth ychwanegol – ar ddiwedd y drafodaeth nid oedd cytundeb ar newidiadau, dim cynllun gweithredu, atgynhyrchu deunydd mewn ffolder yn unig.

Arfarnwr – ailadrodd yr wybodaeth yn y ffolder – cytuno ynglŷn â rhagnodi a symud ymlaen i bwnc arall. Dim gwerth ychwanegol - ailadrodd y wybodaeth yn y ffolder - dim cynllun gweithredu.

2. Fideo - Crebwyll gwael o'r lefel – arwain at or-herio

Mae'r arfarnwr yn rhy frwdfrydig ac yn dechrau gwneud awgrym ar gynnal archwiliad o bob claf ar warfarin / neu AF / awgrymu datblygu canllawiau ymarfer.

Neidio i lefel gwerthuso pan nad oes llawer o dystiolaeth ymarferol o ddefnydd. Ceisio pwysu am archwiliad a chanllaw ymarfer ond nid yw'r meddyg wedi rhagnodi eto – ymddengys ei fod yn cydnabod hyn i'w godi eto ar y diwedd i rywbeth mwy realistig.

Pwysu am archwiliad ond yn cydnabod bod y meddyg yn teimlo'n anghyfforddus ac yn amharod i'w godi eto.

3. Fideo - Lefel briodol

Yr arfarnwr yn annog y meddyg i fyfyrion ar ddysgu – defnyddio'r cyffuriau, cynnig awgrym ar sut y gallai'r meddyg gymhwyso a myfyrion ar ddefnydd ohonynt i gleifion dethol. Annog myfyrion yn arfarniad y flwyddyn nesaf – datblygu pwynt gweithredu.

Yn cael ei arwain gan y meddyg - yn hwyluso - yn cael cytundeb

Senario 2

Enghraifft GCA – ynghlwm

4. Fideo

Arfarnwr yn cynllwynio – ddim yn herio – dim ond ailadrodd bod pethau ddim yn wych – dim byd i'w wneud – ailadrodd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ond nid yw'n mynd i unman arall gyda hyn.

Cynllwynio - nid yw'n ymddangos ei fod yn mynd i'r afael â hyn o gwbl - yn dod â mwy o sefyllfaoedd lle mae cynllwynio yn digwydd yn hytrach na cheisio canllawiau

5. Fideo

Mae'r arfarnwr yn gweld potensial i wneud newidiadau i'r gwasanaethau. Mae'n herio'r meddyg i newid y protocol lleol – cael rhywbeth i weithio – cytuno ar gynllun gweithredu realistig. Yr un senario ond yn cynnig awgrymiadau a chynllun i roi sylw i broblemau.

6. Fideo

Yn dilyn trafodaeth flaenorol am GCA – mae meddyg yn crybwyll problemau gyda chlaf â DVT lle nad oedd dim ymchwiliadau wedi'u gwneud mewn gofal eilaidd i ddiystyru achos arall. Mae'r arfarnwr yn arddangos sgiliau ar lefel briodol yn yr hierarchaeth ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Yn dilyn ymlaen o'r fideo blaenorol – mynd yn ôl i lefel gwybodaeth yn hytrach na dechrau yn y brig fel yn yr un diwethaf.

Casgliad

Mae hwn yn ddull newydd o gymhwyso damcaniaeth addysgol i faes pwysig o'r broses arfarnu, a fydd yn gofyn am werthuso pellach i bennu ei effeithiolrwydd.

Mae wedi llwyddo i greu disgrifyddion o'r broses herio i helpu arfarnwyr i sefydlu pan fyddant yn aneffeithiol neu'n or-heriol – er mwyn cyflawni lefelau priodol o her

Mae wedi addasu hyn i becyn hyfforddi ar-lein gyda chlipiau fideo i ddangos y theori ar waith a bydd yn rhan o fodiwl addysgu sgiliau arfarnu uwch mwy a bydd yn addas ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol i asesu dilysrwydd y broses.

Cyfeiriadau:

Bloom, B. S.; Engelhart, M. D.; Furst, E. J.; Hill, W. H.; Krathwohl, D. R. (1956). Taxonomy of educational objectives: The classification of educational goals. Handbook I: Cognitive domain. New York: David McKay Company.

Rowlands M and Rees L (2011) Developing a tool for analysis of recorded appraisal discussions. Education for Primary Care 22: 241–52